**Argymhellion y Gweithgor Craffu Arbedion i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol**

| **Cyf** | **Teitl y cynnig** | **Argymhelliad** |
|---|---|---|
| DaCh4 | Cwtogi cyllideb cyhoeddusrwydd Cofrestru Etholwyr | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith y cynllun ar ein gallu i sicrhau dyletswydd statudol i gofrestru etholwyr. |
| SaG6 | Ymchwil a Dadansoddeg | Gweithgor yn nodi y dylid dal y cynnig yn ôl am y tro hyd nes bydd sefyllfa toriadau yn glir ac ystyried llunio achos busnes i gadw'r uned fel y mae hi. |
| C25 | Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith y cynllun ar allu'r gwasanaethau perthnasol i gynnal gwasanaeth tu allan i oriau pe bai'r systemau yn methu. |
| OED | Cynigion ym maes Oedolion | Angen sicrhau amserlen ar gyfer y cynigion a'r angen i gael cynlluniau prosiect cadarn er mwyn sicrhau y byddwn yn gwireddu'r cynigion, ac y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol at yr angen hwnnw. |
| OED13 | Addasu cytundebau darparwyr | Argymhellir cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith posib y cynnig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol. |
| Rh9 | Rhoi'r gorau i swyddogaethau anstatudol – Gwasanaethau Rheoli Pla | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael eglurder ar wir effaith y prif opsiynau gan gyfarch y cwestiynau isod:<br>- Petasai'r ffi yn codi er mwyn adfer y gost o ddarparu'r gwasanaeth, a fyddai dal yn gystadleuol gyda'r sector breifat?<br>- Beth fyddai'r effaith o godi'r ffi ar adrannau eraill Cyngor Gwynedd? |
| Rh11, Rh12 a Rh27 | Lleihad o 10% yng nghyllidebau Gwarchod y Cyhoedd (3 cam) | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael eglurder ar wir effaith y cynigion ar ôl dechrau gwireddu. |
| Rh16 | Hysbysebu ceisiadau cynllunio yn y wasg | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael gwell eglurder am yr effaith potensial y gallai'r cynnig ei gael ar y broses ddemocrataidd. |
| PB1 | Caffael | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng arbed arian a chadw'r budd yn lleol. |

| Cyf | Teitl y cynnig | Argymhelliad |
|---|---|---|
| PB24 | Trefn Gwahanol o Newid Lampau | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol edrych a chymharu'r cynnig gyda'r drefn bresennol ("bulk change") er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y dewis cywir. Cyflwynwyd y drefn "bulk change" fel ffordd o arbed arian yn y lle cyntaf. |
| A5 | Addysg Feithrin | Argymhellir cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith posib y cynnig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol. |

Cynigion i'w gwireddu yn 2015/16